



Roedd Prentis peiriannydd, Dylan Pugh wedi mwynhau diwrnod prysur yn ddiweddar mewn Digwyddiad Sgiliau. Trefnwyd y digwyddiad gan Gyrfa Cymru yn LC2 Abertawe. Mae Dylan yn ymgymryd â'i hyfforddiant ar nifer o safleoedd ar draws yr ardal. Cefnoga Griffiths bobl ifanc drwy gynnig amrywiaeth o bethau yn cynnwys hyfforddiant ffurfiol neu brofiad gwaith. Gellir trefnu'r rhain gan gysylltu â Jane, ein Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd trwy ddefnyddio'r manylion isod. Mae Jane (gweler y llun isod) yn ymweld â datblygiadau SA1 yn rheolaidd er mwyn cwrrd â phreswylwyr a busnesau. Yn ystod tymor yr ysgol, mae hi hefyd yn hybu gyrfaoedd y diwydiant adeiladu mewn ysgolion.

Ym mis Medi, byddwn ni'n lansio adnodd ar-lein; 'Profi, Addysgu, Ymgysylltu,' a ddatblygodd gan gwmni lleol Aspire 2 Be. Ar hyn o bryd, mae'r deunyddiau'n cael eu cyfieithu a byddan nhw ar gael i bob ysgol yng Nghymru trwy'r wefan HWB. Cefnogir y prosiect gan Lywodraeth Cymru. Un elfen o'r Rhaglen Addysg Am Adeiladu yw'r cyfle i ysgolion gael ymweliad gan siaradwr o'r diwydiant. Bydd hyn yn cyfoethogi'r profiad dysgu ac yn cyflwyno'r byd gwaith i'r dosbarth.

Gellir trefnu Siaradwyr y Diwydiant drwy'r Rhaglen Cyfnewid Addysg Busnes, Gyrfa Cymru. Am fwy o fanylion, ewch i: <https://www.careerswales.com/cy/cyflogwyr/gweithio-gydag-ysgolion-a-cholegau/cyfnewidfa-addysg-busnes/>



Cafodd dros 1000m² o gerrig pafin ei gosod gyda chanllaw dur gwrthstaen o 80m yn y maes parcio sydd cyferbyn â'r Ganolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru. Mae'r ardal wedi'i dirlunio hefyd gyda mwy na 40 o goed wedi'u plannu.



Mae'r pentir a gwelir ar ochr dde i'r llun wedi'i gyfnerthu â 12 tunnelli o ddur a defnyddiodd 67m³ o goncrit i ffurfio'r waliau. Mae gweithwyr Griffiths hefyd yn gweithio yn SA1 ag adeiladwyr lleol a chyflenwyr lle bo'n bosib er mwyn cefnogi gweithgareddau'r safle. Fel ardaloedd eraill yn SA1, bydd meinciau a dodrefn cyhoeddus yn cael eu rhoi er mwyn cynnig platfform gwledol i bobl yn y dyfodol.

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni drwy ein gwefan ar community.alungriffiths.co.uk neu cysylltwch â Jane Howells, ein Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd ar

0330 0414651* neu jane.howells@alungriffiths.co.uk

* Bydd galwadau yn costio yn ôl y gyfradd genedlaethol a byddant yn rhan o funudau cynwysedig ffôn symudol a llinell dir.

